Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer

Gwasanaeth Maethu Gwynedd

Cyfadran Gofal
Swyddfa'r Cyngor
Penrallt
Caernarfon
LL55 1SH

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad Cyhoeddi

26 Gorffennaf 2018

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2018.
Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau Trwydded Agored y Llywodraeth. Gallwch weld Trwydded Agored y Llywodraeth ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk
Rhaid ichi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Disgrifiad o'r gwasanaeth

Mae Gwasanaeth Maethu Gwynedd yn darparu ystod o leoliadau maethu ar gyfer plant a phobl ifanc (a gyfeirir atynt o hyn ymlaen fel plant) sydd angen gwasanaethau o'r fath. Darperir lleoliadau tymor hir a thymor byr a lleoliadau seibiant. Ar adeg yr arolygiad hwn, roedd cyfanswm o 230 o blant wedi'u lleoli gyda 160 o aelwydydd maethu. Marian Parry Hughes yw'r unigolyn cyfrifol ar gyfer y gwasanaeth a Melvin Craig Panther yw'r rheolwr.

Crynodeb o'n canfyddiadau

1. Asesiad cyffredinol

Gwelsom fod plant yn byw mewn lleoliadau sefydlog ac y gwrandewir ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, sy'n cael ei barchu. Mae plant yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu cefnogi i gyflawni canlyniadau cadarnhaol. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym eu bod yn cael cefnogaeth dda gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol. Mae angen gwella arweinyddiaeth a rheolaeth y gwasanaeth er mwyn cydymffurfio â rheoliadau am i ni nodi pedwar maes lle nad oedd y gwasanaeth yn cydymffurfio â rheoliadau maethu. Gwnaethom hefyd nodi deuddeg maes o arfer da.

Mae gweithredu'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus ddiwygiedig wedi rhoi disgwyliad ar y gwasanaeth maethu i gwblhau ceisiadau gofal o fewn yr amserlen o 26 wythnos. Ers yr arolygiad blaenorol, bu cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a galw cynyddol am leoliadau. Yn dilyn hynny, mae nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi rhoi pwysau ar y gwasanaeth maethu a bu'n rhaid iddynt ddefnyddio gwasanaethau maethu annibynnol.

2. Gwelliannau

Mae'r gwasanaeth wedi cyflwyno polisi 'aros dros nos' sy'n galluogi hyblygrwydd i blant mewn gofal i dderbyn gofal gan deulu a ffrindiau gofalwyr maeth.

Bellach, mae asiantaeth annibynnol 'Y Bont' yn cynnal adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth nad ydynt yn cael eu hadolygu gan y panel. Yn flaenorol, fe'u hadolygwyd gan eu gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol ac aelod arall o'r tîm. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol wrthym fod hyn wedi rhoi mwy o ddidueddrwydd ac nad oedd yn cymryd cymaint o adnoddau gwaith cymdeithasol ac yn caniatáu iddynt ddarparu mwy o gefnogaeth i ofalwyr maeth pan fo materion yn codi.

Roedd gweithiwr dynodedig wedi'i benodi i gynnal asesiadau hyfywedd o bobl gysylltiedig bosibl.

3. Gofynion ac argymhellion

Mae adran pedwar yr adroddiad hwn yn nodi'r meysydd lle nad yw'r gwasanaeth maethu'n bodloni ei ofynion cyfreithiol a'r argymhellion i wella'r gwasanaeth. Mae'r meysydd hyn yn ymwneud â'r unigolyn cyfrifol ddim yn rhoi gwybod i AGC fod rheolwr cofrestredig y gwasanaeth maethu wedi rhoi'r gorau i'w swyddogaeth a bod rheolwr newydd wedi cael ei benodi, y trefniadau sicrhau ansawdd, gan gynnwys trefniadau monitro ar gyfer cynnydd addysgol plant a phresenoldeb ysgol, a pheidio ag ennill safbwyntiau ystod lawn o rhanddeiliaid, gan gynnwys plant, gofalwyr maeth a staff, i hysbysu'r adroddiad ansawdd gofal blynyddol.

Mae argymhellion yn cael eu gwneud mewn perthynas â chofnodi paru plant a gofalwyr maeth, arferion rheoli risg, goruchwyliaeth y rheolwr maethu, a monitro perfformiad y tîm. Ceir argymhellion eraill sy'n ymwneud ag adolygiadau blynyddol a chyrsiau ymsefydlu a hyfforddiant ar gyfer aelodau'r panel, cyfeiriadau o fewn dogfennau ynghylch sefyllfa'r gwasanaeth maethu o ran y Gymraeg, a dogfennau perthnasol nad ydynt wedi'u llofnodi a'u dyddio.

1. Llesiant

Crynodeb

Mae'r canlyniadau ar gyfer plant sy'n cael eu maethu'n dda. Mae'r plant yn iach ac yn mwynhau cymryd rhan mewn ystod o weithgareddau sy'n hyrwyddo eu datblygiad cymdeithasol ac emosiynol. Mae ganddynt berthynas gadarnhaol â'u gofalwyr maeth a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn derbyn gofal da iawn. Roedd gweithwyr cymdeithasol cynorthwyol a gweithwyr cymdeithasol plant hefyd yn cadarnhau hyn. Mae plant yn gwneud cynnydd da mewn addysg o'u man cychwyn wrth ddod i ofal maeth.

Ein canfyddiadau

Mae plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i rannu eu barn. Canfuom fod plant yn gallu mynegi eu dymuniadau a'u teimladau trwy eu gofalwyr maeth, Swyddogion Adolygu Annibynnol ac adolygiadau gofalwyr maeth. Roedd cyfleoedd hefyd i blant gwblhau dogfen adolygu plant sy'n derbyn gofal a hefyd i siarad â'u gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol y gofalwyr maeth pan oeddent yn ymweld. Mae Tros Gynnal yn cael ei gomisiynu'n rhanbarthol i ddarparu gwasanaeth eirioli ac ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant; fodd bynnag, mae hyn yn benodol i'r mater ac mae'n rhaid iddo gael ei geisio gan y plentyn neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran. Er enghraifft, gwelsom dystiolaeth fod gofalwr maeth wedi ceisio'r gwasanaeth eirioli i blentyn nad oedd ei weithiwr cymdeithasol wedi ymweld ag ef ers dros chwe mis. Gwelsom ffeiliau achos gofalwyr maeth a chanfod bod ffurflenni adborth wedi'u cwblhau gan blant mewn lleoliadau ar gyfer adolygiadau blynyddol y gofalwyr maeth, a oedd yn ganmoladwy. Gwelsom hefyd fod barn gweithwyr cymdeithasol plant bob amser yn cael ei cheisio ar gyfer adolygiadau gofalwyr maeth, ac roeddent yn cwblhau adran ar y ffurflen yn ymwneud â barn y plentyn o'i leoliad. Rhoddodd y plant enghreifftiau o geisiadau yr oeddent wedi'u gwneud i ni lle'r oedd eu gofalwyr maeth wedi gwrando ac wedi gweithredu arnynt. Er enghraifft, dywedodd un o'r plant wrthym o fewn y grŵp ffocws ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yr aethom iddo ei fod wedi dweud wrth ei ofalwr maeth ei fod am weld ei rieni am gyfnod hirach yn ystod y cyfnod cyswllt. Dywedodd y plentyn wrthym fod ei ofalwr maeth wedi rhannu'r wybodaeth hon gyda'i weithiwr cymdeithasol goruchwyliol, a wnaeth rannu hyn gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Yn dilyn trafodaethau, cynyddodd amser cyswllt y plentyn gyda'i rieni ac, o ganlyniad, cafodd ei ddymuniadau a'i deimladau eu parchu mewn perthynas â chael amser cyswllt hirach. Cafodd sylwadau'r plentyn eu cefnogi ymhellach pan wnaethom ddarllen o fewn cofnod goruchwylio'r gofalwr maeth penodol hwnnw fod hyn wedi cael ei drafod gyda'i weithiwr cymdeithasol goruchwyliol a bod gwaith dilynol wedi'i wneud ar hyn gyda gweithiwr cymdeithasol y plentyn. Mae hyn yn dangos bod gan blant lais, y gwrandewir arnynt, a'u bod yn cael cyfle i rannu eu barn am eu lleoliadau ac yn cael mynediad at wasanaeth eirioli annibynnol os oes angen.

Mae gofalwyr maeth yn darparu amgylchedd gofalgar a meithringar i'r plant sydd yn eu gofal. Gwelsom dystiolaeth o hyn trwy edrych ar ystod o ddogfennau ac o siarad â phlant,

gofalwyr maeth a staff. Er enghraifft, gwelsom lawer o sylwadau cadarnhaol am ddull meithringar gofalwyr maeth tuag at y plant a oedd yn cael eu lleoli gyda nhw. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol plentyn mewn adroddiad adolygu gofalwr maeth fod y plentyn yn hapus ac wedi ymgartrefu ac roedd ganddo berthynas hyfryd gyda'r gofalwyr maeth a'u plant. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol arall fod gan blentyn ymlyniad cryf gyda'r gofalwr. Buom yn siarad â phlant, a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu lleoliadau. Roedd rhai o'u sylwadau'n cynnwys y canlynol: *'Rwy'n teimlo y gallaf siarad â'm gofalwyr maeth ac rwy'n eu parchu'n wirioneddol'*; *'Mae fy ngofalwyr maeth yn wych' ac 'Mae fy ngofalwyr maeth wedi sicrhau bod gen i bopeth sydd ei angen arnaf mewn bywyd i lwyddo.'*

Mae plant yn elwa ac yn ffynnu mewn lleoliadau diogel a sefydlog, lle maent yn datblygu perthnasau cadarn a diogel gyda'u teulu, eu ffrindiau a'u gofalwyr maeth. Gwelsom o adolygiadau statudol o leoliadau fod plant wedi ymgartrefu'n dda a bod y lleoliadau wedi eu cynnal dros nifer o flynyddoedd. Gwnaethom ddarllen fod Swyddog Adolygu Annibynnol wedi nodi mewn adolygiad, *'Mae'r gofalwyr maeth yn gwbl ymrwymedig i ddarparu lleoliad diogel trwy gydol ei phlentyndod a dylid eu canmol am eu hymrwymiad i XXX, sydd wedi cyflwyno ymddygiad heriol iawn dros y blynyddoedd.'* Roedd yr adolygiadau yn dangos bod plant wedi gwneud cynnydd pan oeddent mewn lleoliad a bod gofalwyr maeth yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol wrth gefnogi plant i gynnal a datblygu cysylltiadau teuluol. Dywedodd gweithiwr cymdeithasol plentyn yn adolygiad y gofalwr maeth, *'Mae'r gofalwr maeth yn fwy na pharod i weithio gyda'r cynllun cyswllt ond bydd yn eirioli ar ran y plentyn os yw'n teimlo ei fod er lles y plentyn.'* Rydym yn dod i'r casgliad fod plant yn teimlo ymdeimlad o berthyn, eu bod yn profi ymlyniad, a bod ganddynt berthynas gadarn a chadarnhaol gyda'r bobl sy'n gofalu amdanynt.

Mae gan blant y wybodaeth er mwyn eu helpu i ddeall yr hyn y mae derbyn gofal gan y gwasanaeth maethu yn ei olygu. Er enghraifft, buom yn siarad â phlant a fynychai grŵp ffocws y plant a gwnaeth rhai ohonynt gadarnhau eu bod wedi cael llyfryn i blant ar faethu a'r hyn yr oedd yn ei olygu iddyn nhw. Yn ogystal, gwnaeth plant hefyd rannu fod y gweithwyr cymdeithasol a ddyrannwyd ar yr adeg pan wnaethant ddechrau derbyn gofal wedi esbonio iddynt yr hyn yr oedd derbyn gofal gan y gwasanaethau cymdeithasol yn ei olygu iddyn nhw a'u teuluoedd a sut y byddent yn sicrhau eu diogelwch a'u lles. Mae'r canllaw i blant ar y gwasanaeth maethu yn addas ar gyfer pob plentyn sy'n cael ei faethu drwy'r gwasanaeth, yn cynnwys crynodeb o'r hyn y mae'r gwasanaeth yn nodi ei fod am wneud ar gyfer plant, ac yn cael ei ddarparu i blant cyn gynted ag y maen nhw'n cael eu maethu.

Mae plant yn cael eu hannog a'u cefnogi i gyflawni eu potensial addysgol, gan ystyried eu cyrhaeddiad a'u cynnydd o ddechrau eu lleoliad. Gwelsom dystiolaeth ddogfennol o blant yn gwneud cynnydd yn academaidd ac o bresenoldeb da yn yr ysgol. Roedd yn amlwg fod gofalwyr maeth yn gyffredinol yn annog presenoldeb ac ymgysylltu ag addysg; gwelsom lawer o enghreifftiau o ofalwyr maeth yn meddu ar berthynas gadarnhaol iawn gydag ysgolion. Er enghraifft, nododd Swyddog Adolygu Annibynnol mewn adolygiad lleoliad, *'Lleoliad rhagorol - yn bleser i nodi bod cynnydd yn cael ei wneud yn yr ysgol.'*Gwnaethom

ddarllen bod plentyn hŷn wedi cael mynediad at brofiad gwaith fel rhan o'i gwrs coleg a bod ganddo ddyheadau gyrfaol. Y canlyniad i blant yw bod y gwasanaeth maethu yn sicrhau bod eu gofalwyr maeth yn darparu amgylchedd lle mae addysg a dysgu yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi a bod y gofalwyr maeth yn sefydlu disgwyliad o bresenoldeb rheolaidd yn yr ysgol fel bod potensial addysgol plant yn cael ei sicrhau i'r eithaf.

Mae plant yn profi lles ac ymdeimlad o gyflawniad oherwydd eu bod yn gallu manteisio ar gyfleoedd, dilyn diddordebau a datblygu sgiliau. Gwelsom lawer o enghreifftiau o fewn ffeiliau dogfennol o blant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis gymnasteg, nofio, karate a marchogaeth. Roedd llawer o blant o'r ddau rywedd yn chwarae pêl-droed neu rygbi i wahanol dimau lleol. Roedd un unigolyn ifanc wedi bod i ŵyl gerddoriaeth ac i'r Eidal gyda'r ysgol a disgrifiodd y profiad fel *'anhygoel'*. Dywedodd un plentyn wrthym yn y grŵp ffocws ei fod yn chwarae pêl-droed ar gyfer tîm y pentref lleol, a thrwy hyn ei fod wedi gwneud *'llawer o ffrindiau trwy ymuno â'r tîm'* a'i fod yn teimlo'n bositif ynglŷn â'i ddyfodol. Y canlyniad i blant yw eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu diddordebau a chael profiadau hamdden cadarnhaol, sydd yn eu tro yn hyrwyddo eu hunan-barch ac yn cyfrannu at eu lles cyffredinol.

Nid yw plant bob amser yn derbyn gofal gan ofalwyr maeth sy'n meddu ar wybodaeth ddogfennol sydd ei hangen arnynt i reoli risg yn gymesur. Canfuom nad yw gofalwyr maeth yn derbyn asesiadau risg unigol yn rheolaidd ar gyfer y plant sydd wedi'u lleoli gyda nhw. Er enghraifft, pan fydd yr angen am leoliad yn cael ei nodi, bydd y swyddog dyletswydd o'r gwasanaeth maethu yn siarad â darpar ofalwyr maeth am anghenion ac ymddygiad y plentyn. Gwnaethom ddarllen bod gan blentyn a oedd wedi'i roi mewn lleoliad ym mis Rhagfyr 2017 ymddygiadau eithaf heriol a allai gyflwyno risgiau i'r gofalwyr maeth a'r plentyn arall yn y lleoliad. Fodd bynnag, nid oedd asesiad risg ysgrifenedig yn darparu manylion am y risgiau a'r strategaethau i leihau'r risgiau hynny wedi'i ddatblygu neu ei ddarparu ar gyfer y gofalwyr maeth. Cafodd y gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a ddyrannwyd i'r gofalwr maeth ei gyfweld a dywedodd wrthym fod hyn wedi cael ei drafod yn fanwl gyda'r gofalwyr maeth ac wedi cael ei gadarnhau yn adolygiad blynyddol y gofalwyr maeth gan y Swyddog Adolygu Annibynnol. Fodd bynnag, mae angen i'r ddogfennaeth fod ar waith, ar gyfer y gofalwyr maeth ac ar ffeil y gofalwyr maeth, i sicrhau bod dealltwriaeth gyflawn ac eglurdeb o ran ymagwedd at y risgiau posib. Yn ogystal â hyn, o ffeiliau'r wyth gofalwr maeth a welwyd gennym, dim ond dau gytundeb awdurdod dirprwyedig a wnaethom eu gweld ar waith. Mae cytundebau hyn yn ddogfen hanfodol arall sy'n galluogi gofalwyr maeth i sicrhau bod plant yn cael penderfyniadau amserol ynglŷn â'r gweithgareddau y gallant gymryd rhan ynddynt a bod gofalwyr maeth yn gallu bod yn glir ynghylch pa ganiatadau y gallant eu rhoi. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod diffyg cytundebau awdurdod dirprwyedig wedi achosi problemau iddynt. Daethom i'r casgliad na all y gwasanaeth ddangos yn llawn ei fod yn hyrwyddo diogelwch a lles y plant ar bob adeg oherwydd diffyg asesiadau risg a dogfennau awdurdod dirprwyedig, a fyddai'n nodi risgiau i blant a darparu arweiniad a strategaethau clir ar gyfer gofalwyr maeth.

Mae plant yn cael eu darparu â gwasanaeth maethu sy'n cyflenwi gofalwyr maeth sy'n creu amgylchedd diogel, iach a meithringar. Er enghraifft, buom yn siarad â nifer o blant yn y grŵp ffocws a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n ddiogel yn byw gyda'u gofalwyr maeth a'u bod yn cael eu trin â pharch ac fel rhan o'r teulu. Dywedodd y plant, pe na baent yn teimlo'n ddiogel neu'n pryderu am unrhyw beth yn y cartref neu'r ysgol, neu'n pryderu am blentyn arall, y byddent yn hysbysu eu gofalwyr maeth, eu gweithwyr cymdeithasol, yr heddlu, neu'r athrawon yn yr ysgol. Gwnaethom ddarllen cofnodion goruchwylio gofalwyr maeth a chanfod bod gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn ymweld yn rheolaidd â chartref y gofalwyr maeth a byddai'r ymweliadau hyn yn digwydd yn amlach cyn i'r plant ddychwelyd adref o'r ysgol fel y gallent weld rhwydweithio'r gofalwyr maeth gyda phlant a sut oedd y perthnasau hynny. Mae'r gwasanaeth maethu a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cefnogi gofalwyr maeth yn effeithiol i sicrhau bod lleoliadau plant yn parhau i fod yn sefydlog.

2. Gofal a Chymorth

Crynodeb

Canfuom fod plant yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth sy'n frwdfrydig ac yn falch o'u gwaith. Canfuom eu bod yn cael eu cymell ac yn awyddus i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau plant y maent yn gofalu amdanynt. Mae gofalwyr maeth wedi cael eu recriwtio'n gadarn, ac yn siarad yn gadarnhaol am y gefnogaeth y maent yn ei dderbyn gan y gwasanaeth maethu. Fodd bynnag, ni welwyd tystiolaeth dda o baru ac nid oedd gofynion iaith plant bob amser yn cael eu diwallu'n llawn.

Ein canfyddiadau

Mae asesu gofalwyr maeth yn drylwyr. Roedd y cynnydd mewn asesiadau a orchmynnwyd gan y llys o bobl gysylltiedig wedi cael effaith ar ddarparu a datblygu gwasanaethau. Roedd hyn wedi effeithio ar weithgarwch recriwtio dros y blynyddoedd diwethaf er gwaethaf cynnydd yn nifer y plant ag anghenion cymhleth sy'n derbyn gofal. Roedd recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol sy'n gallu bodloni anghenion plant yn cael ei gydnabod fel blaenoriaeth, a gwelsom fod strategaeth recriwtio yn cael ei datblygu. Roedd pwyntiau gweithredu yn cynnwys penodi swyddog asesu hyfywedd amser llawn ond dim ond am ddwy wythnos yr oedd wedi bod yn ei swydd ar adeg yr arolygiad. Buom yn siarad ag aelodau'r tîm maethu, a ddywedodd wrthym eu bod yn fodlon gyda'r penodiad hwn a'u bod yn obeithiol y byddai'n caniatáu iddynt ganolbwyntio mwy ar gefnogi gofalwyr maeth a chynnal asesiadau. Cafodd asesiadau trylwyr eu defnyddio i nodi gofalwyr maeth addas. Cynhaliwyd mwyafrif yr asesiadau gan y tîm maethu ac roedd adroddiadau a samplwyd (Ffurflenni F) yn fanwl, wedi'u dadansoddi ac wedi'u cyflwyno'n dda. Cawsom wybod gan gadeirydd y panel fod ansawdd yr adroddiadau asesu ar y cyfan yn uchel. Canfuom fod lles plant yn cael ei hyrwyddo drwy brosesau recriwtio ac asesu diogel a bod y gwasanaeth yn cyflogi'r bobl addas i gyflawni'r swyddogaeth o ofalwr maeth.

Roedd y ffeiliau a samplwyd gennym yn dangos tystiolaeth fod gofalwyr maeth a gofalwyr cysylltiedig yn ymgymryd â chyrsiau hyfforddi parhaus ar bynciau megis sylfaen ddiogel, awtistiaeth, therapi chwarae, materion iechyd meddwl plant a rhieni, a syndrom alcohol y ffetws. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym fod ansawdd y cyrsiau hyfforddi o safon uchel a bod y gwasanaeth wedi bod yn ymatebol pan gafodd ceisiadau am gyrsiau hyfforddiant penodol eu gwneud. Gwnaeth rhai gofalwyr maeth sylw nad oedd y lleoliadau hyfforddi bob amser yn gyfleus iddynt oherwydd maint daearyddol y sir. Cafodd yr hyfforddiant a fynychwyd ei drafod yn adolygiadau blynyddol y gofalwyr maeth a chanfuwyd rhaglen hyfforddi ar y ffeiliau y gwnaethom eu darllen. Fodd bynnag, dywedwyd wrthym gan reolwyr y gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol eraill y gwnaethom siarad â nhw, er bod rhai gofalwyr maeth yn mynychu hyfforddiant rheolaidd, nid yw rhai eraill yn gwneud hyn. Mae hyn yn awgrymu nad yw pob gofalwr maeth yn meddu ar wybodaeth a dealltwriaeth gyfredol o'r ffordd orau o ymateb i anghenion ac ymddygiad y plant.

Mae gofalwyr maeth yn cael eu goruchwylio a'u cefnogi gan y gwasanaeth. Gwelsom fod gofalwyr maeth yn cael eu hannog a'u cefnogi i gael amseroedd egwyl a bod lleoliadau seibiant wedi'u trefnu ar gyfer hyn. Roedd y gwasanaeth maethu yn cydnabod bod cefnogi a chadw gofalwyr maeth yn hanfodol i gynnal gwasanaeth maethu sy'n diwallu anghenion y plant yn ei ofal. Roedd gan bob gofalwr maeth unigol weithiwr cymdeithasol goruchwyliol a ddyrannwyd i'w gefnogi gyda'i swyddogaeth wrth ddarparu gofal a chymorth i'r plant sy'n derbyn gofal ganddo. Cafodd gofalwyr maeth eu darparu â sesiynau goruchwylio misol a oedd yn cael eu cofnodi a'u gosod ar eu ffeiliau papur a hefyd cofnodion o sgyrsiau ffôn a negeseuon e-bost a oedd wedi digwydd. Gwnaethom ddarllen cofnodion yr ymweliadau goruchwylio a wneir yn fisol gan aelodau'r tîm maethu i'r gofalwyr maeth. Gwnaethom ddarllen bod trafodaethau priodol wedi digwydd ynglŷn â chynnydd y plant, eu hanghenion, a pha mor dda oedd y gofalwyr maeth yn diwallu'r anghenion hynny, er nad oedd rhai cofnodion wedi'u llofnodi a'u dyddio gan y ddau barti. Roedd y gwasanaeth gwaith cymdeithasol y tu allan i oriau yn darparu cymorth ac arweiniad ychwanegol i ofalwyr maeth. Roedd adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth yn cael eu cynnal gan wasanaeth annibynnol 'Y Bont' ac roedd yr adolygiadau hyn yn cael eu craffu wedyn gan y panel maethu er mwyn sicrhau ansawdd ymhellach ac addasrwydd parhaus y gofalwyr maeth. Gwnaethpwyd adolygiadau ychwanegol gan y panel maethu pan oedd cwynion, honiadau neu faterion eraill yn cael eu lleisio. Gall plant gael sicrwydd fod y gofalwyr maeth sy'n gofalu amdanynt yn cael cyngor ac arweiniad ac yn cael eu goruchwylio'n briodol.

Mae gofalwyr maeth yn fodlon â lefel y gefnogaeth y maent yn ei derbyn. Buom yn siarad â 14 o ofalwyr maeth ac roeddent yn gadarnhaol am y gefnogaeth yr oeddent yn ei derbyn gan eu gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol a'r gwasanaeth yn gyffredinol. Yn ogystal, gwnaethom ddarllen ffurflenni ymgynghori'r gofalwyr maeth ar gyfer eu hadolygiadau blynyddol ac roedd y sylwadau yn cynnwys *'Cefnogaeth ragorol gan y tîm maethu'* a *'Bob amser ar ben arall y ffôn – nid oes dim byd yn ormod o drafferth.'* Dywedwyd wrthym gan reolwr y gwasanaeth maethu fod tri grŵp gofalwyr maeth i ofalwyr maeth cyffredinol eu mynychu a dau grŵp ar gyfer pobl gysylltiedig. Roedd y rhain yn cael eu cynnal mewn gwahanol leoliadau ledled y sir, a oedd yn galluogi gofalwyr maeth i fynychu grwpiau lleol heb deithio'n rhy bell o'u cartrefi. Dywedwyd wrthym gan ofalwyr maeth fod y grŵp mwy sefydlog yn cael ei fynychu'n dda ond nid oedd y grŵp sydd newydd gychwyn ym Mlaenau Ffestiniog yn cael ei fynychu'n dda eto. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym eu bod yn gweld y grwpiau yn ddefnyddiol iawn ar gyfer dysgu a rhannu arferion da. Gall plant fod yn hyderus fod gofalwyr maeth yn cefnogi ei gilydd trwy rwydweithio â'i gilydd a mynychu grwpiau i gefnogi arfer da a helpu gyda phroblemau y gallai fod ganddynt.

Mae cymorth ychwanegol ar gael i ofalwyr maeth gan weithwyr ac asiantaethau arbenigol ac mae iechyd meddwl plant yn cael ei hyrwyddo. Roedd y gwasanaeth yn cyflogi therapydd ac, o'r ffeiliau, gwnaethom ddarllen bod gofalwyr maeth wedi cael mynediad at y gwasanaeth hwn yn ôl yr angen. Gwnaethom ddarllen cofnodion goruchwylio a ffurflenni adborth gan ofalwyr maeth, ac roedd y rhain yn dangos bod gofalwyr maeth wedi canfod y gwasanaeth cymorth arbenigol i fod yn amhrisiadwy. Roedd y gwasanaeth wedi datblygu cyswllt â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed y sir fel y gellid gwneud

atgyfeiriadau uniongyrchol at seicolegydd ymgynghorol, sy'n cyflymu mynediad at wasanaethau iechyd meddwl. Y canlyniad i blant yw y gallant gael sicrwydd fod gofalwyr maeth yn cael cyngor proffesiynol ynglŷn â'r ffordd orau o ddiwallu eu hanghenion a'u hymddygiad cymhleth.

Mae iechyd corfforol plant yn cael ei hybu a'i fonitro. Gwelsom o'r adolygiadau o leoliadau plant eu bod wedi'u cofrestru gyda meddygon teulu a deintyddion a'u bod yn derbyn sgrinio iechyd a deintyddol rheolaidd yn ôl yr angen. Roedd tystiolaeth dda mewn ffeiliau fod gofalwyr maeth wedi hyrwyddo datblygiad ac iechyd y plant yn eu gofal. Er enghraifft, roedd gan lawer o blant anghenion iechyd ychwanegol a bu gofalwyr maeth yn gweithio'n agos gyda gweithwyr proffesiynol fel therapyddion lleferydd ac iaith, a gwnaethom ddarllen bod iechyd plant wedi gwella a bod cynnydd wedi'i wneud o ran eu lleferydd a'u hiaith. Mae hyn yn dangos bod gofalwyr maeth yn cael eu hysbysu o ran anghenion iechyd plant a'u bod yn gweithio'n effeithiol ac yn gyson er mwyn sicrhau bod iechyd a datblygiad plant yn cael eu sicrhau i'r eithaf.

Canfuom fod plant yn gyffredinol yn cael eu lleoli gyda gofalwyr maeth addas sy'n cael eu nodi trwy broses baru ragnodedig sy'n cyfrannu at sefydlogrwydd eu lleoliadau maeth. Fodd bynnag, nid oedd gwybodaeth baru yn darparu digon o fanylion i ddangos tystiolaeth lawn o baru priodol. Gwelsom o gofnodion fod nifer o leoliadau llwyddiannus iawn wedi'u gwneud, gyda phlant yn aros gyda'u gofalwyr maeth trwy gydol eu plentyndod, ac mewn rhai achosion y tu hwnt, dan drefniadau 'Pan fydda i'n barod'. Roedd yr adborth gan weithwyr cymdeithasol plant yn gadarnhaol iawn ynghylch y safon uchel o ofal y mae gofalwyr maeth yn ei ddarparu i blant. Dywedodd gweithwyr cymdeithasol plant wrthym am rai o'r lleoliadau sefydlog iawn yr oedd plant wedi elwa ohonynt, a pha mor fedrus oedd y gofalwyr maeth wrth ddiwallu anghenion plant. Fodd bynnag, yn anorfod, roedd paru plant a gofalwyr maeth yn cael ei gyfyngu gan y nifer gyfyngedig o leoliadau maeth sydd ar gael yn yr awdurdod lleol. Dangosodd trafodaethau gyda'r rheolwr a'r staff yn y tîm maethu eu bod yn adnabod eu gofalwyr maeth yn dda a bod ganddynt ddealltwriaeth dda o'u gwybodaeth a'u medrau. Fodd bynnag, roedd y gwasanaeth yn cydnabod bod nifer y gofalwyr maeth yn annigonol i fodloni'r galw am leoliadau maeth, yn enwedig ar gyfer plant hŷn a'r rhai ag anghenion cymhleth. Dywedwyd wrthym gan y swyddog dyletswydd, pan dderbyniwyd atgyfeiriadau, eu bod yn gwirio rhestr y gofalwyr maeth i weld pa ofalwyr maeth oedd â lle gwag, ac a oedd ganddynt y statws cymeradwyo cywir. Cynhaliwyd trafodaethau wedyn gyda'r gweithiwr cymdeithasol goruchwyliol a gweithwyr cymdeithasol plant i drafod paru posibl, gyda thrafodaeth ddilynol yn cael ei chynnal gyda gofalwyr maeth a oedd yn cael eu hystyried yn briodol. Dywedwyd wrthym gan weithwyr cymdeithasol plant a gofalwyr maeth fod cydweithio da a chydlynol rhyngddynt a'r tîm maethu a oedd yn sicrhau bod lefelau sgiliau a phrofiad gofalwyr maeth yn eu galluogi i ddiwallu anghenion plant. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym, yn ôl eu profiad nhw, fod gwaith paru lleoliadau'n cael ei wneud yn ofalus a gwnaeth un nodi, *'Rydym yn teimlo'n hyderus yn ein gallu i wrthod lleoliadau nad ydym yn teimlo y gallwn ofalu amdanynt ac efallai na fyddent yn integreiddio i'n cartref, ac mae'r swyddog dyletswydd a'r tîm maethu wedi parchu'r penderfyniadau hyn ac nid ydynt yn rhoi pwysau.'* Er nad oedd y dogfennau paru yn rhoi digon o fanylion o ran gofynion y

plant sydd angen lleoliadau, roedd y ddogfen atgyfeirio yn darparu'r wybodaeth hon. Fodd bynnag, o gofnodion nid oedd yn glir pam fod gofalwyr maeth penodol wedi'u paru â phlant. Nid oedd gwybodaeth sylfaenol yn cael ei darparu ar y ddogfen megis pa fath o leoliad oedd ei angen (seibiant, tymor byr neu hirdymor); iaith gyntaf, crefydd, diwylliant, hunaniaeth rhywedd, rhyw ar adeg geni a rhywioldeb y plentyn; unrhyw risgiau megis agosrwydd at deulu geni, ymddygiad heriol, ac effaith bosibl ar blant eraill sy'n byw yn y cartref (plant maeth neu blant geni); a lleoliad ysgol y plentyn. Dywedwyd wrthym fod y gofynion hyn yn cael eu hystyried yn ofalus yn ystod y broses baru; fodd bynnag, dylai gwybodaeth baru ddarparu digon o fanylion i ddangos tystiolaeth fod penderfyniadau cadarn wedi'u gwneud. Dywedwyd wrthym na all plant sydd â Chymraeg fel eu hiaith gyntaf bob amser gael eu paru â gofalwyr maeth sy'n siarad Cymraeg a bod plant wedi'u lleoli gyda gofalwyr maeth di-Gymraeg. Y canlyniad i rai plant yw nad ydynt yn gallu derbyn gofal trwy eu dewis iaith ac nid yw eu hanghenion ieithyddol a diwylliannol yn cael eu diwallu.

3. Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Crynodeb

Yn gyffredinol, mae'r gwasanaeth yn gweithredu yn ôl ei ddatganiad o ddiben, ac mae tystiolaeth o blant yn cael profiad o leoliadau sefydlog a chyflawni canlyniadau da. Serch hynny, nid yw'r gwasanaeth yn cydymffurfio â phedwar rheoliad. Roedd y rheolwr cofrestredig wedi gadael ei swydd ac mae rheolwr newydd wedi'i benodi. Roedd y rheolwr newydd wedi bod yn y swydd ers dros 14 mis ar adeg yr arolygiad ond roedd yr unigolyn cyfrifol wedi methu â hysbysu AGC am y materion hyn. Nid yw ansawdd y gwasanaeth yn cael ei fonitro a'i sicrhau'n effeithiol ac nid yw gwybodaeth am ddarparu'r gwasanaeth a chanlyniadau i blant yn cael ei dadansoddi, ac ni ellir ei defnyddio i ysgogi gwelliannau gwasanaeth sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau ac sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Er gwaethaf hyn, mae'r profiadau a'r safbwyntiau a fynegwyd gan blant a gofalwyr maeth yn ystod yr arolygiad yn dangos nad yw'r diffygion a nodwyd yn yr adroddiad hwn yn cael effaith andwyol ar blant.

Ein canfyddiadau

Nid yw'r gwasanaeth maethu yn cydymffurfio â rheoliadau ynghylch hysbysu AGC o ymadawiad y rheolwr blaenorol a phenodi rheolwr newydd. Canfuom fod rheolwr cofrestredig y gwasanaeth maethu wedi gadael ei swydd yn y gwasanaeth maethu a bod rheolwr newydd wedi cael ei benodi. Nid oedd yr unigolyn cyfrifol wedi hysbysu AGC a chanfuom cyn yr arolygiad fod rheolwr wedi'i benodi i swydd y rheolwr maethu am dros 14 mis. Ni chawsom hyd i dystiolaeth fod yr amryfusedd hwn wedi cael effaith negyddol ar swyddogaethau gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol y gwasanaeth maethu, y gefnogaeth o ran arfer i ofalwyr maeth, a'r plant sy'n derbyn gofal.

Caiff y gwasanaeth maethu ei fonitro a cheir adroddiad ansawdd gofal; fodd bynnag, mae angen gwelliant pellach o ran dangos tystiolaeth feintiol ac ansoddol er mwyn galluogi'r gwasanaeth i adolygu a deall y wybodaeth i gefnogi gwelliannau. Nid oedd yr adroddiad adolygu ansawdd gofal cyfredol yn cynnwys barn y plant a oedd wedi'u lleoli, eu rhieni a'u gofalwyr maeth yn unol â gofynion rheoliadau. Mae'r gwasanaeth yn comisiynu 'Y Bont' i gadeirio cyfarfodydd amharu ac roedd y cadeirydd wedi llunio adroddiad o gyfarfodydd a gadeiriwyd ar ran tri awdurdod lleol, gan gynnwys Gwynedd. Roedd yr adroddiad wedi nodi ffactorau cyffredin a oedd wedi cyfrannu at leoliadau yn methu ac wedi gwneud argymhellion i liniaru'r risg o leoliadau yn methu heb gynllunio am hyn yn y dyfodol. Gallai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys mewn adroddiad ansawdd gofal a fyddai'n llywio cynlluniau gweithredu yn y dyfodol i wella'r gwasanaeth yn ogystal â dangos dealltwriaeth o'r gwasanaeth. Nid oedd yr adroddiad yn canolbwyntio ar ganlyniadau ac nid oedd yn darparu dadansoddiad o'r data er mwyn hyrwyddo gwelliannau i'r gwasanaeth. Byddai hyn yn dangos tystiolaeth fod y gwasanaeth yn gosod safonau uchel i'w hun a'i fod yn ymrwymedig i sicrhau ansawdd a gwelliant cyson er lles plant. Felly, ni all plant fod yn hyderus bod y gwasanaeth maethu yn sicrhau bod gwersi o ymarfer yn cael eu gweithredu i wella ansawdd y gwasanaeth a gwella canlyniadau i blant.

Mae mecanweithiau sicrhau ansawdd ar waith ar gyfer y gwasanaeth, ond nid yw'r rhain yn cael eu gweithredu'n effeithiol. Er enghraifft, canfuom o'r ffeiliau a welsom fod archwiliadau iechyd a diogelwch wedi'u gwneud yn flynyddol fel rhan o adolygiadau blynyddol gofalwyr maeth. Fodd bynnag, canfuom fod rhai materion a oedd yn dal i fodoli wedi'u nodi fel gwiriad diogelwch nwy sydd angen ei wneud ar y boeler nwy ac yswiriant dosbarth busnes sydd angen ei gael ar gyfer car gofalwr maeth. Nid oedd yn eglur o'r dogfennau a oedd y camau gweithredu hyn wedi'u cwblhau. Yn ogystal, roedd y meysydd hyn hefyd wedi'u crybwyll yng nghyfarfod y panel pan oedd adroddiadau ar gyfer adolygiadau blynyddol y gofalwyr maeth wedi cael eu cyflwyno, ond nid oedd unrhyw adborth ysgrifenedig gan gadeirydd y panel i lywio a gwella'r gwasanaeth a ddarperir. Gwelsom pan oedd cwynion wedi cael eu gwneud am y gwasanaeth fod camau gweithredu wedi cael eu cymryd. Roedd AGC wedi cael gwybod bod camau diogelu priodol wedi'u gwneud pan leisiwyd pryderon ynghylch diogelwch a lles plant. Fodd bynnag, roedd llai o dystiolaeth o weithgareddau archwilio parhaus megis archwilio ffeiliau gofalwyr maeth i sicrhau bod y wybodaeth a gedwir yn bodoli ac yn gyfredol. Nid oedd y diffyg asesiadau risg unigol, y cytundebau awdurdod dirprwyedig, a'r materion a godwyd ynghylch asesiadau iechyd a diogelwch gan y panel wedi cael eu gwirio.

Mae plant, teuluoedd a gofalwyr maeth yn cael gwasanaeth sy'n gweithredu yn unol â'i ddatganiad o ddiben yn gyffredinol, er bod angen diweddaru gwybodaeth ychwanegol am y gwasanaeth a chyflwyno'r ddogfen i AGC. Roedd y ddogfen yn amlinellu ethos, nodau ac amcanion y gwasanaeth, ynghyd â gwybodaeth am y rheolwyr. Nid oedd unrhyw wybodaeth ynghylch a oedd y gwasanaeth maethu yn darparu 'cynnig gweithredol' o ran y Gymraeg er ein bod yn ymwybodol ei fod yn darparu'r gwasanaeth hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r cofnodion y gwnaethom eu harchwilio wedi cael eu cwblhau yn Saesneg. Gwnaethom drafod hyn gyda'r tîm rheoli, a ddywedodd wrthym na ellid dylanwadu ar ddewisiadau iaith gweithwyr wrth ysgrifennu na'u gorfodi. Nid yw'r datganiad o ddiben yn cynnig darlun clir a chynhwysfawr o sefyllfa'r gwasanaeth o ran darparu 'cynnig gweithredol' y Gymraeg.

Mae arferion recriwtio yn gadarn i'r rhai sy'n gweithio yn y gwasanaeth maethu ac ar ran y gwasanaeth maethu, ond mae angen gwella rhai meysydd o gyfrifoldeb rheoli er mwyn sicrhau gwell trefniadau llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu proses recriwtio gofalwyr maeth diogel ac effeithiol ac roedd ganddo banel maethu sefydlog, profiadol a gwybodus. Roedd prosesau recriwtio staff yn gadarn, ac roedd yr holl wiriadau gofynnol yn cael eu gwneud i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu, ac eithrio ar gyfer y staff hynny sy'n trosglwyddo o dimau eraill o fewn Gwasanaethau Plant am inni ganfod nad oedd ail eirdaon wedi eu cael. Cawsom ein hysbysu gan y rheolwyr y byddent yn trafod hyn gyda'r adran bersonél. Yn ogystal, gwnaethom nodi nad oedd arfarniadau blynyddol ar gyfer aelodau'r panel wedi cael eu cwblhau ac nad oedd proses sefydlu ffurfiol ar gyfer aelod o'r panel sydd newydd ei benodi. Ni allai'r plant gael sicrwydd fod yr union arferion recriwtio yn cael eu dilyn a bod y gwaith o fonitro a goruchwylio aelodau'r panel maethu'n cael ei graffu'n effeithiol.

Mae angen gwella'r broses o gadw cofnodion o oruchwyliaeth a pherfformiad gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol gan y rheolwr maethu. Canfuom nad oedd cofnod o drafodaethau ynghylch y gofalwyr maeth ar y dogfennau y gwnaethom eu gweld na chofnod o werthusiad perfformiad gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol. Yn ogystal, canfuom fod dogfennau goruchwylio ar goll am gyfnod o fisoedd i rai gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol ac nad oedd y rheolwr na'r aelod o staff yr oedd yn ei oruchwylio

wedi llofnodi a dyddio rhai dogfennau i gadarnhau bod y ddau barti yn cytuno â'r hyn a drafodwyd yn ystod goruchwyliaeth. Dywedwyd wrthym fod trafodaethau wedi digwydd ond eu bod wedi'u cofnodi ar ffeiliau gofalwyr maeth unigol yn hytrach nag ar y ddogfen oruchwylio. Mae angen ystyried sut mae'r gwasanaeth yn dangos tystiolaeth fod ymarfer a pherfformiad gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cael eu monitro a'u cofnodi'n effeithiol – a bod y cofnodion hyn yn cael eu storio'n effeithiol hefyd.

Mae gan y gwasanaeth ymwybyddiaeth gadarn o'r gofyniad i recriwtio gofalwyr maeth ychwanegol. Bu cynnydd sylweddol yn nifer yr atgyfeiriadau lleoli yn ystod y flwyddyn ddiwethaf ac felly, er mwyn ymateb i'r galw hwn, roedd ffocws ar recriwtio, yn gyffredinol ac wedi'i dargedu'n benodol, gydag ymgyrchoedd hysbysebu rheolaidd a gwaith i gylchredeg deunyddiau darllen newydd. Nid oedd ymgyrchoedd recriwtio bob amser mor llwyddiannus ag y byddai'r gwasanaeth maethu wedi hoffi o ran cynyddu niferoedd. Roedd strategaethau ar gyfer recriwtio'n cael eu hasesu a'u hadolygu'n barhaus gyda'r bwriad o wella'r gyfradd llwyddiant wrth benodi gofalwyr maeth newydd. Roedd y gwasanaeth yn defnyddio lleoliadau asiantaethau maethu annibynnol i gefnogi darpariaeth fewnol ac roedd hyn wedi sicrhau bod mwy o ddewis o ran lleoliadau wrth ystyried paru plant â lleoliad sy'n gallu diwallu eu hanghenion. Gall plant fod yn hyderus fod ymdrechion yn cael eu gwneud i recriwtio rhagor o ddarpar ofalwyr maeth addas.

4. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

4.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Dim

4.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom gynghori'r unigolyn cyfrifol fod angen gwelliannau er mwyn bodloni'r gofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r canlynol:

- Rheoliad 10, (3): rheolwr gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol – gwnaeth yr unigolyn cyfrifol fethu â hysbysu AGC nad oedd y rheolwr cofrestredig yn rheoli gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol mwyach.
- Rheoliad 10, 1 (a), (b): rheolwr gwasanaeth maethu'r awdurdod lleol – gwnaeth yr unigolyn cyfrifol fethu â hysbysu AGC ynglŷn â newid mewn rheolwr, enw'r unigolyn a benodwyd, a'r dyddiad y daeth y penodiad i rym.
- Rheoliad 16 (2), (a): gwnaeth yr adroddiad ansawdd gofal fethu â monitro cyflawniadau addysgol a phresenoldeb ysgol plant sy'n derbyn gofal.
- Rheoliad 42, (2): gwnaeth yr adroddiad ansawdd gofal fethu ag ymgynghori a chael barn ystod lawn o randdeiliaid, gan gynnwys plant, gofalwyr maeth, darpar ofalwyr maeth, yr awdurdod lleol a staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth maethu.

Argymhellion pellach:

- Adolygu prosesau asesu risg a sicrhau bod gan ofalwyr maeth ddogfennaeth angenrheidiol yn brydlon i atgyfnerthu trafodaethau mewn perthynas â strategaethau i ddarparu gofal diogel.
- Sicrhau bod y caniatadau awdurdod dirprwyedig priodol ar waith.
- Dylai'r cofnod o gyfarfodydd paru ddarparu digon o fanylion i ddangos bod penderfyniadau cadarn wedi'u gwneud. Cynnwys effaith bosibl y lleoliad ar unrhyw blant presennol. Hefyd, lle'r oedd bylchau'n cael eu nodi o ran paru, dylai'r gwasanaeth maethu gofnodi sut mae'n bwriadu mynd i'r afael â'r rhain – er enghraifft, trwy hyfforddiant.
- Dangos o fewn sesiynau goruchwylio un i un sut mae ymarfer a pherfformiad gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cael eu monitro.
- Sicrhau bod arfarniadau blynyddol ar gyfer aelodau'r panel maethu'n cael eu cwblhau bob blwyddyn.
- Sicrhau bod y broses sefydlu ar gyfer aelodau penodedig o'r panel maethu yn cael ei chofnodi er mwyn cael llwybr archwilio.
- Sicrhau bod yr hyfforddiant ar gyfer aelodau'r panel yn cael ei gofnodi er mwyn cael llwybr archwilio.

- Sicrhau bod ail eirdaon ar gyfer staff sy'n trosglwyddo o fewn yr awdurdod lleol yn cael eu caffael.
- Sicrhau bod pob cofnod o oruchwyliaeth rhwng gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol goruchwyliol yn cael ei arwyddo a'i ddyddio gan y ddau barti.
- Sicrhau bod yr holl gofnodion o gyfarfodydd goruchwylio sy'n cael eu cynnal gan reolwr y gwasanaeth maethu yn cael eu llofnodi a'u dyddio gan y ddau barti.

5. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Roedd hwn yn arolygiad llawn a gafodd ei gynnal fel rhan o'n rhaglen arolygu gan ddau arolygydd.

Gwnaethom arolygu'r gwasanaeth maethu ar 1, 2, 8, 15 a 16 Mai 2018.

Cafodd y dulliau canlynol eu defnyddio er mwyn cwblhau'r adroddiad hwn:

- Gwnaethom siarad â phlant sy'n derbyn gofal gan y gwasanaeth o fewn y grŵp ffocws
- Gwnaethom siarad ag 14 o ofalwyr maeth yn unigol o fewn y grŵp ffocws i blant
- Gwnaethom siarad â rheolwr penodedig y gwasanaeth maethu
- Gwnaethom siarad ag uwch-reolwr y gwasanaeth maethu a'r unigolyn cyfrifol
- Gwnaethom fynychu cyfweliadau olrhain achosion gyda'r gweithiwr cymdeithasol cynorthwyol yn bresennol
- Gwnaethom siarad â phedwar gweithiwr cymdeithasol cynorthwyol ar gyfer y tîm maethu
- Gwnaethom siarad â chadeirydd y panel maethu a dau aelod annibynnol o'r panel
- Gwnaethom siarad â dau weithiwr cymdeithasol i blant
- Gwnaethom fynychu grŵp ffocws plant sy'n derbyn gofal
- Gwnaethom siarad â thri Swyddog Adolygu Annibynnol
- Gwnaethom siarad â'r Swyddog Cyswllt Addysg
- Gwnaethom siarad â dwy nyrs plant sy'n derbyn gofal ar gyfer Gwynedd ac Ynys Môn

Gwnaethom edrych ar ystod eang o ddogfennau a chofnodion ac roedd y rhain yn cynnwys y canlynol:

- Rhannau o ffeiliau a chofnodion achos plant
- Ffeiliau a chofnodion deg gofalwr maeth
- Cofnodion recriwtio ar gyfer pedwar aelod o staff parhaol
- Cofnodion goruchwylio a hyfforddi ar gyfer dau aelod o staff
- Cofnodion goruchwylio, arfarnu a hyfforddi ar gyfer aelodau annibynnol o'r panel
- Matrics hyfforddi 2018/19 ar gyfer gofalwyr maeth
- Cofnodion y 12 cyfarfod tîm diwethaf
- Yr adroddiad ansawdd gofal blynyddol ar gyfer 2017/18
- Gwnaethom ddarllen pedwar asesiad Ffurflen F
- Gwnaethom ddarllen y pedwar cofnod olaf ar gyfer y panel maethu
- Gwnaethom fynychu panel maethu sy'n adolygu cofrestriadau gofalwyr maeth
- Y datganiad o ddiben ar gyfer y gwasanaeth maethu
- Llyfryn/canllaw i blant ar dderbyn gofal gan y gwasanaeth

Gwnaethom hefyd ystyried gwybodaeth am y gwasanaeth a gedwir gan AGC. Roedd hyn yn cynnwys yr adroddiad arolygu blaenorol, pryderon, cyfarfodydd Rhan 4, a hysbysiadau ers yr amser hynny.

Ceir gwybodaeth bellach am yr hyn yr ydym yn ei wneud ar ein gwefan: www.arolygiaethgofal.cymru

Ynglŷn â'r gwasanaeth

Y math o ofal a ddarperir	**Gwasanaeth maethu awdurdod lleol**
Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru	**31 Mawrth 2016**
Dyddiadau'r ymweliadau arolygu hyn	**1, 2, 8, 15 a 16 Mai 2018**
Iaith weithredol y gwasanaeth	**Cymraeg a Saesneg**
Ydy'r gwasanaeth hwn yn darparu cynnig gweithredol y Gymraeg?	**Ydy – mae angen tystiolaeth o hyn gyda'r datganiad o ddiben a'r canllaw i blant.**
Gwybodaeth ychwanegol:	